ENGLISH VERSION AT BOTTOM OF DOCUMENT

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne Llanafan ar Nos Lun 13eg Mai, 2019 am 7.30 y.h.

Presennol:

Cyng. L. Owen (Cadeirydd) Cyng. A. Davies Cyng. P. Davies Cyng. A. Evans Cyng. H.M. Evans Cyng. J. George Cyng. E. Lewis Cyng. C. Lloyd-Morgan Cyng. L.L. Owen Cynghorydd Sir M. Davies

Ymddiheuriadau Cyng. P. Bonner, Cyng. Sh. Edwards

1. **Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf**
   Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod cyffredinol diwethaf, 1af Ebrill, 2019 ond am newid swm y taliad i gyfreithiwr ADVE o £59.00 i £43.00.
   Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. Alun Evans ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

2. **Asesiad Risg ac Asedau** Dim materion yn codi.

3. **Materion angen sylw'r Cyngor Sir**

(i) **Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan**: Mae'r problemau gyda'r golau stryd bellach wedi'u datrys ac mae'n gweithio fel y dylai. Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig gan Gyngor Sir Ceredigion eu bod wedi mabwysiadu'r lamp.

(ii) **Draeniau angen sylw o fewn yr ardal**: Mae yna restr hir o ddraeniau angen sylw o fewn yr ardal gyda'r Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion ynghyd ag annog y Cyngor Sir i lenwi tyllau yn ffyrdd yr ardal.

(iii) **Materion angen sylw gan y Cyngor Sir o ran y ffyrdd:** Trafodwyd nifer o faterion sydd angen sylw gan y Cyngor Sir gyda'r Clerc i gysylltu ymhellach i ddilyn lan. Y Clerc i gadw rhestr hanesyddol gan gyfeirio at y materion ym mhob cyfarfod ond gan gadw eitemau newydd ar yr agenda.

(iv) Cytunwyd i gadw mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir am sefyllfa Caban Bugail yn yr ardal ynghyd â Chaban Pod er mwyn sicrhau ceisiadau cynllunio addas arnynt.

(v) **Adnewyddu Ffens:** Prifysgol Aberystwyth wedi rhoddi ffens ysgafn mewn lle wrth Bont ar y B4340.

(vi) **Coeden mewn perygl o gwympo ym Mhentref Llanafan:** y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir fel mater o Iechyd a Diogelwch y cyhoedd.

(vii) O ran y sticil bren yn Cnwch Coch mae swyddog o'r Cyngor Sir bellach wedi ymweld â'r safle gyda threfniadau mewn llaw i'r Cyngor Sir ail-wneud y sticil.

(viii) **Ffordd heibio Dolgwybedin**: er fod y ffordd wedi ei ysgubo yn ddiweddar mae'r angen yn parhau am adnewyddu cyflwr y ffordd.

(ix) Tyllai yn y ffordd rhwng Bont Tanllan a Thŷ Mawr, Llanfihangel-y-Creuddyn a hefyd ger Pantgwyn ger mynedfa i'r Goedwig yn parhau fod yn broblem a hefyd twll mawr wedi ymddangos ar y groesffordd ym Mrynafan, a hefyd wrth Dolawel, Llanfihangel-y-Creuddyn.

(x) Gŵyl Tan ar y Mynydd yn Cnwch Coch. Derbyniwyd gadarnhad drwy'r Cyngor Sir bod y trefnwyr wedi sicrhau trefniadau priodol ar gyfer diogelwch defnyddwyr y ffordd a'r rhai sy'n ymweld â'r Ŵyl. Deallir yr hysbysebir gwyl ym mis Awst o dan enw Tan ar y Mynydd. Ymholiadau i'w gwneud gyda'r Cyngor Sir am y trefniadau i sicrhau na fydd yn effeithio trigolion lleol yn ormodol.

(xi) Ni ddisgwylir i waith sylweddol gael eu wneud ar arwynebedd y ffordd o Lanfihangel-yCreuddyn i Drisant am o leiaf ddwy flynedd. Cedwir llygad ar y sefyllfa. Tyllai dwf yn parhau ar y ffordd o Gapel Cynon i Lanfihangel.

(xii) Mae'r drain uwchben Dolau Ceunant wedi gorlenwi unwaith yn rhagor gyda dwr yn rhedeg i mewn i eiddo preifat. Derbyniwyd ymateb bod y Cyngor Sir wedi gwneud gwaith ar y drain oedd wedi cwympo ger Haulfan, Llanfihangel-y-Creuddyn.

(xiii) Dwr yn parhau i redeg i mewn i'r cae gyferbyn a Brynhyfryd, Cnwch Coch yn hytrach na rhedeg i ddrain islaw ar y ffordd.

(xiv) Problemau'r ffyrdd yn Llanafan. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi beth yw'r sefyllfa am y materion a godwyd gyda'r Swyddog ar ymweliad safle o amgylch y pentref yn ddiweddar.

(xv) Bont wrth ymyl Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn: Bu i'r Cyng. Paul Davies wneud gwaith cynnal a chadw ar y bont, yn dilyn cytundeb y Cyngor Sir.

(xvi) Disgwyl ymateb wrth y Cyngor Sir am y cais am fin sbwriel/ail-gylchu ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn a hefyd manylion am sefyllfa contractwr yn gadael ffordd mewn cyflwr peryglus.

(xvii) Cytunwyd i dynnu sylw'r awdurdodau perthnasol am y pryder o ran diogelwch am gerbydau'n parcio yn y Gors.

(xviii) Ffordd Penlon i'r Gors: Deallir bod trafodaethau'n parhau rhwng y perchennog tir a'r Cyngor Sir ac nad oes mwy y medrir gwneud o ran y Cyngor Bro.

(xix) Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi bod yn cwblhau ychydig o waith yn ardal Llanafan yn ddiweddar: Jetter wedi bod yn ymdrin a'r culvert ger Maesyfelin ac ar hyd y ffordd Cwmrhydyfelin a'r ffordd wedi ysgubo; arwydd maes chwarae wedi ail osod; polion du/gwyn wedi eu hadnewyddu ar y B4340 ger fferm Wenallt gyda mwy o waith i'w wneud eto; ail-osod arwydd 30 mya ger Frondeg; gwter wedi glanhau ger Minafon gyda mwy o waith i'w gwblhau; glanhau'r ffordd o Lanafan i Frynafan gan lanhau ochr y ffordd i sicrhau dwr glaw i redeg o'r ffordd.

4. Materion Cyllidol

(i) Trafodwyd dogfen y Llywodraeth ble mae pob un Cynghorydd Cymuned a Thref i dderbyn lwfans o £150 yn flynyddol tuag at gostau heblaw bod unigolion yn llenwi ffurflen yn gwrthod y lwfans. Telir y swm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol drwy system PAYE. Ni dderbyniwyd penderfyniad unfrydol i beidio â derbyn y lwfans, dychwelodd pum aelod y ffurflen gwrthod lwfans i'r Clerc. Y Clerc i sicrhau bod y cynghorwyr oedd yn absennol yn derbyn y manylion perthnasol.

(ii) **Tendr Torri Porfa yn Llanfihangel-y-Creuddyn a thocio Ffordd Uchaf, Llanafan**

Derbyniwyd tendrau oddi wrth un ymgeisydd ar gyfer torri'r glaswellt ar y Tir Comin yn Llanfihangel y Creuddyn (£180) ac ar gyfer tocio'r Ffordd Uchaf ac ati yn Llanafan (£150). Gan mai dyma'r unig dendrau, fe dderbyniwyd y ddau swm.

Cynigiwyd y penderfyniad gan Cyng. J. George ac eiliwyd gan y Cyng. P. Davies.

(iii) **Cyfrifon y Cyngor Bro 2018/19**

Adroddodd y Clerc bod Mrs. Hilary Matthews wedi cwblhau archwiliad mewnol ar y cyfrifon a darllenwyd adroddiad a dderbyniwyd gan Mrs. Matthews yn nodi bod y cyfrifon mewn trefn.

Bydd y Clerc yn trosglwyddo'r cyfrifon ymlaen i'r Archwilydd Allanol yn dilyn y drefn o archwilio cyfrifon Cynghorau Bro. Derbyniwyd rhai argymhellion o ran cyflwyno a chofnodi'r cyfrifon mewn modd mwy effeithlon ar ffurf Excel a chytunwyd i dderbyn a gweithredu ar yr argymhellion hyn.

Derbyniwyd anfoneb gan Mrs. Matthews am £100.00 am gwblhau'r archwiliad.

Penderfynwyd talu anfoneb a chynigiwyd y taliad gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.

Asesiad Risg Cyflwynodd y Clerc daflen Asesiad Risg er sylw'r Aelodau ac aed drwy'r eitemau a cytunwyd bod popeth mewn trefn. Nodir fod Asesiad Risg ac Asedau ar agenda pob cyfarfod ble medrir codi materion fel y gwelir yn briodol.

(iv) Derbyniwyd swm o £723.64 ad-daliad TAW am gyfnod o ddwy flynedd o 01:02:2017 – 31:01:2019

(v) Derbyniwyd swm o £1,500 taliad 1 praesept 2019/20 ar 30/04/2020 i'r cyfrif cyfredol.

5. Gohebiaeth

(i) Llythyr o werthfawrogiad gan Glwb Ffermwyr Ifainc Lledrod tuag at redeg y Rali flynyddol a hefyd lythyr o werthfawrogir wrth Gymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin am y rhodd tuag at gynnal yr yswiriant.

(ii) Un Llais Cymru: ymholiad am gynrychiolwyr i fynychu'r Pwyllgor Ardal. I'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

(iii) Trafnidiaeth Cymru: Manylion am sesiwn galw heibio ar yr 21ain o Fai yn ymwneud a'r Gorsaf Drên arfaethedig ym Mow Street.

(iv) Newyddion am Banel Troseddol a Heddlu Ceredigion.

6. Unrhyw Fater Arall

(i) Cyfeiriwyd at gwynion gan drigolion lleol nad yw'r casgliad sbwriel/ail-gylchu yn gweithredu'n effeithiol yn enwedig dros wyliau'r banc. Tynnir sylw'r Cyngor Sir at y cwynion hyn.

7. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 24ain Mehefin 2019 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.

Minutes of Trawsgoed Community Council held at Lisburne Hall, Llanafan on Monday 13th May, 2019 at 7.30 p.m.

Present:
Cllr. L. Owen (Chairman) Cllr. A. Davies, Cllr. P. Davies Cllr. A. Evans Cllr. H.M. Evans Cllr. J. George, Cllr. E. Lewis Cllr. C. Lloyd-Morgan.
County Councilor M. Davies

Apologies:
Cllr. P. Bonner, Cllr. Sh. Edwards

1. **Minutes of Last Meeting**
The minutes of the last general meeting, 1st April, 2019, were confirmed and accepted, subject to a change in the payment to ADVE solicitor from £59.00 to £43.00. Accuracy was proposed by Cllr. Alun Evans and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.

2. Risk Assessment and Assets No matters arising.

3. Matters arising from the Minutes

(i) New **Street Lights at Llanafan**: Problems with the streetlight have now been resolved. Written confirmation has been received from Ceredigion County Council that the lamp has now been adopted by the Authority.

(ii) Drains requiring attention within the area: There are a number of drains requiring attention within the area with the Clerk to draw the County Council's attention to the issues as well as asking the County Council to fill potholes in the area's roads.

(iii) **Issues to be addressed by the County Council regarding the roads**: A number of issues requiring attention by the County Council were discussed with the Clerk to follow up. The Clerk to keep a historical list with reference to the issues at each meeting but keeping only new items on the agenda.

(iv) It was agreed to keep in touch with the County Council regarding the installation of a Shepherd's Hut and Glamping Pod in the area to ensure suitable planning applications are made.

(v) **Repair of Fencing**: Aberystwyth University has installed fencing near a bridge on the B4340 near to Llanafan.

(vi) **Tree at risk of falling in Llanafan Village**: Clerk to contact the County Council further as a matter of public Health and Safety.

(vii) With regard to the timber stile at Cnwch Coch a County Council officer has now visited the site with arrangements in place for the County Council to make the stile safe.

(viii) Dolgwybedin Road: although the road has been recently swept, the condition of the road is still in need of repair work.

(ix) Potholes in the road between the bridge near Tanllan and Ty Mawr, Llanfihangel-y-Creuddyn and also near Pantgwyn near the entrance to the Forest remain a problem. Also a large hole has appeared at the crossroads at Brynafan, and at Dolawel, Llanfihangel-y-Creuddyn.

(x) Fire in the Mountain Festival at Cnwch Coch. Confirmation has been received through the County Council that the organizers have ensured appropriate arrangements for the safety of road users and visitors to the Festival. It is understood that a festival will be held in August under the name of Tan ar y Mynydd. Inquiries to be made with the County Council about arrangements to ensure that it does not unduly affect local residents.

(xi) Significant works are not expected to be carried out on the Llanfihangel-y-Creuddyn to Trisant road surface for at least another two years. The situation will be kept under review. Large potholes continue to appear on the road from Capel Cynon to Llanfihangel.

(xii) The water drain above Dolau Ceunant has become blocked again with water running into private property. A response was received that the County Council had carried out work on the sunken drain near Haulfan, Llanfihangel-y-Creuddyn.

(xiii) Water continues to run into the field opposite Brynhyfryd, Cnwch Coch rather than running into drains below on the road.

(xiv) Road problems at Llanafan. The Clerk to contact the County Council to enquire as to the position regarding the issues raised with the Officer during a recent site visit around the village.

(xv) Bridge near Llanfihangel-y-Creuddyn School: Cllr. P. Davies carried out maintenance work on the bridge, following permission from the County Council.

(xvi) Awaiting a response from the County Council regarding the request for a litter / recycling bin in Llanfihangel-y-Creuddyn Village as well as a response of a contractor leaving a road in a dangerous condition.

(xvii) It was agreed to draw the attention of the relevant authorities to the safety concern regarding vehicles parking at New Cross.

(xviii) Penlon to New Cross Road: It is understood that discussions are ongoing between a landowner and the County Council and there is nothing more that can be done with regard to the Community Council.

(xix) It was reported that the County Council had recently completed some work in the Llanafan area: Jetter had been dealing with the culvert near Maesyfelin and along the Cwmrhydyfelin road and a road sweeper had been along the road; reinstated playground sign; refurbished black / white poles on the B4340 near Wenallt farm with more work to be undertaken; the replacement of a 30 mph sign near Frondeg; gutter cleaned near Minafon with more work to complete; cleaning the Llanafan to Brynafan road and cleaning the roadside to ensure rainwater runs from the road.

4. **Financial Matters**

(i) A Government document was discussed where every Community and Town Councilor is to receive an allowance of £150 annually towards costs unless individuals fill in a form refusing the allowance. The amount is paid at the end of the financial year through the PAYE system. No unanimous decision was made not to accept the allowance, five members returned the form refusing acceptance of the allowance to the Clerk. Clerk to ensure absent councillors receive relevant details.

(ii) Grass Cutting Tender at Llanfihangel-y-Creuddyn and trimming of Ffordd Uchaf, Llanafan
Tenders were received from one applicant for grass cutting on the Common at Llanfihangel y Creuddyn (£180) and for trimming the Upper Road etc. at Llanafan (£150). As these were the only tenders, both amounts were received.
The decision was proposed by Cllr. J. George and seconded by Cllr. P. Davies.

(iii) **Community Council Accounts 2018/19**
The Clerk reported that Ms. Hilary Matthews had completed an internal audit of the accounts and read a report received from Mrs. Matthews noting that the accounts are in order. The Clerk will forward the accounts to the External Auditor as per regulation of the auditing of Community Council accounts. Some recommendations for more efficient presentation and recording of accounts were received in Excel format and it was agreed to accept and act on these recommendations.
It was decided to pay the invoice received from Mrs. Matthews for £100.00 for completing the audit which was proposed by Cllr. E. Lewis and seconded by Cllr. A. Davies.
Risk Assessment
The Clerk tabled a Risk Assessment document for Members' attention and went through the items and agreed that everything was in order. It is noted that a Risk and Asset Assessment is on the agenda of every meeting where issues can be raised as deemed appropriate.

(iv) A sum of £723.64 VAT refund was received for a two year period from 01: 02: 2017 - 31: 01: 2019

(v) £1,500 was received for 1st precept 2019/2020 payment.

5. **Correspondence**

(i) Letter of appreciation for recent donation was received from Lledrod Young Farmers Club towards running the annual Rally and also a thank you letter from Maesyfelin Playground Association for the donation towards the insurance.

(ii) One Voice Wales: request for representatives to attend the Area Committee. It will be discussed at a future meeting.

(ii) Transport Wales: Details of a drop in session on the 21st May regarding the proposed Railway Station at Bow Street.

(iii) Newsletter of the Ceredigion Police and Criminal Panel.

6. **Any Other Business**

(i) Reference was made to complaints from local residents that the refuse / recycling collection was not operating effectively especially during bank holidays. These complaints to be brought to the attention of the County Council.

7. Date of Next Meeting

The next meeting of the Community Council will be held on Monday 24th June 2019 at 7.30 pm at Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School.